

Rhagarweiniad

1. Cyffredinol

1.1 Mae gan Undeb y Myfyrwyr ystod o grwpiau myfyrwyr cysylltiedig gan gynnwys cymdeithasau, clybiau chwaraeon a grwpiau gwirfoddoli.

1.2 Rhaid i grwpiau myfyrwyr cysylltiedig a'u haelodau weithredu o fewn Cyfansoddiad (Erthyglau Cymdeithasu), is-ddeddfau a pholisïau Undeb y Myfyrwyr.

1.3 Rhaid i bob grŵp myfyrwyr gydffurfio â holl bolisïau'r Undeb. Gall methu â gwneud hynny arwain at gosbau ariannol neu ddileu breintiau.

2. Grwpiau Myfyrwyr Cysylltiedig:

2.1 Er mwyn dod yn gysylltiedig, rhaid i grwpiau newydd ddarparu Undeb y Myfyrwyr â'r canlynol:

- a. Disgrifiad byr o'r grŵp myfyrwyr arfaethedig.
- b. Set o nodau ac amcanion craidd nad ydynt yn dyblygu gweithgaredd neu wasanaeth arall a ddarperir eisoes gan Undeb y Myfyrwyr neu Grŵp Myfyrwyr arall
- c. Isafswm o aelodau sy'n dymuno ymuno â'r grŵp os caiff ei gymeradwyo.
- ch. Pwyllgor cychwynnol sy'n cynnwys Llywydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd (neu rôl gyfatebol). Yn ogystal, mae'n ofynnol bod gan glybiau chwaraeon sy'n cystadlu yn BUCS Gaptan.

2.2 Rhaid i Grwpiau Myfyrwyr ddangos eu bod yn weithredol i gynnal eu cysylltiad ag Undeb y Myfyrwyr. Er mwyn cael eu hystyried yn weithredol mae'n rhaid i Grwpiau Myfyrwyr sicrhau'r canlynol:

- a. Ethol o leiaf Llywydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd i'w pwyllgor yn flynyddol a diweddarau eu manylion cyswllt yn ôl yr angen. Yn ogystal, mae'n ofynnol i Glybiau Chwaraeon sy'n cystadlu yn BUCS ethol captan.
- b. Adolygiad blynyddol a (lle bo hynny'n briodol) diweddarau dogfennau allweddol gan gynnwys:
 - i. Cyfansoddiad
 - ii. Cod Ymddygiad
 - iii. Aseidiadau Risg (yn cynnwys holl weithgareddau'r grŵp)
 - iv. Rhestrau Offer (yn cynnwys yr holl offer, p'un a ydynt wedi'u rhoi neu wedi'u prynu)
 - v. Ffurflen Mandad (Llywydd a Thrysorydd yn unig)
- c. Presenoldeb aelodau'r pwyllgor mewn unrhyw hyfforddiant gorfodol.
- ch. Sicrwydd bod lleiafswm digonol o aelodau, deg fel arfer, yn ôl yr angen ar gyfer grwpiau sydd newydd ymgysylltu.
- d. Cydffurfiaeth â'r holl ofynion iechyd a diogelwch, ariannol a gweithdrefnol eraill fel y bernir yn briodol gan Undeb y Myfyrwyr.

2.3 Ni all Cyfansoddiad Grwpiau Myfyrwyr ddisodli Erthyglau Cymdeithasu, is-ddeddfau na pholisïau Undeb y Myfyrwyr.

2.4 Rhaid i Grwpiau Myfyrwyr bob amser fod â phwyllgor llawn sy'n goruchwyllo ei aelodaeth a chynnal ei weithgareddau fel y nodir uchod. Mae pwyllgor llawn yn cynnwys o leiaf Llywydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd. Yn ogystal, mae'n ofynnol i Glybiau Chwaraeon sy'n cystadlu yn BUCS ethol captan.

2.5 Rhoddir cyfnod gras i Grwpiau Myfyrwyr sy'n methu â llenwi pob rôl ar y Pwyllgor i lenwi'r rolau gwag. Gall methu â gwneud hynny arwain at dorri cysylltiad â'r Undeb a/neu atal gweithgareddau.

2.6 Mae ataliad o'r fath yn gwahardd unrhyw Grŵp Myfyrwyr rhag cynnal digwyddiadau neu weithgareddau yn enw'r Undeb.

2.7 Pan fydd Grŵp Myfyrwyr yn cael ei atal, nid yw'r Undeb yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ddigwyddiadau y mae'r grŵp hwn yn eu cynnal.

2.8 Yn ogystal, bydd atal Grŵp Myfyrwyr yn cynnwys gosod y cosbau canlynol:

- a. Bydd cyfrifon y Grŵp Myfyrwyr dan sylw yn cael eu blocio. Mae hyn yn golygu na ellir tynnu arian allan o'u cyfrif.
- b. Bydd gwasanaethau'r Undeb yn cael eu hatal ar gyfer y Grŵp Myfyrwyr hwn. Mae hyn yn cynnwys llogi bysiau ac offer, defnyddio oriau cyfleusterau chwaraeon a ddyrannwyd ac archebu ystafelloedd.
- c. Bydd unrhyw drefniadau hyrwyddo a wneir fel arfer gan yr Undeb yn cael ei hatal ar gyfer y Grŵp Myfyrwyr hwnnw.

2.9 Gall Undeb y Myfyrwyr dorri cysylltiad neu atal rhywfaint o'r gefnogaeth a roddir i Grŵp Myfyrwyr ar sail tystiolaeth o un neu fwy o'r canlynol:

- a. Tystiolaeth o weithredu'n groes i Gyfansoddiad (Erthyglau Cymdeithasu), is-ddeddfau, polisïau neu weithdrefnau Undeb y Myfyrwyr.
- b. Tystiolaeth o gamreoli ariannol
- c. Methu â diwallu unrhyw un o'r meini prawf a amlinellir yn rheolau ar gyfer Grwpiau Myfyrwyr Cysylltiedig 2.2.
- ch. Camau a gymerwyd fel o ganlyniad i Broses Ddisgyblu Undeb y Myfyrwyr.

2.10 Mewn amgylchiadau penodol, gall Undeb y Myfyrwyr osod Grŵp Myfyrwyr mewn mesurau arbennig ar ran ei aelodau a / neu ei amcanion i sicrhau ei fod yn cael ei redeg yn effeithiol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys lle mae'r Undeb yn ymyrryd i atal cwmpwysibl grŵp, lle mae Pwyllgor wedi gweithredu yn erbyn canllawiau Undeb y Myfyrwyr o ran ymddygiad neu'n sefydlu grŵp y mae'n bwriadu i fyfyrwyr ei gymryd drosodd yn y dyfodol.

3. Etholiadau Grwpiau Myfyrwyr:

3.1 Rhaid llenwi pob rôl ar bwyllgorau gan ddefnyddio proses etholiadau rydd a theg.

3.2 Bydd y Dirprwy Swyddog Etholiadau yn dehongli ac yn goruchwyllo etholiadau i sicrhau eu bod yn deg, fel yr amlinellir yn Is-ddeddf 1 (Etholiadau) ac unrhyw gwynion dilynol yn unol ag Is-ddeddf 1, a lle bo angen mewn ymgynghoriad â Swyddog Etholiadau Undeb y Myfyrwyr.

3.4 Gall Grwpiau Myfyrwyr ychwanegu rolau i'w hethol yn ychwanegol i'r rhai a nodir yn Adran 2 lle gwelant yn dda gwneud hyn yn gyfansoddiadol. Ni chaniateir ethol mwy na deg rôl ar unrhyw Bwyllgor.

3.5 Cyn diwedd y flwyddyn gyfredol, rhaid i bob grŵp myfyrwyr ethol pwyllgor newydd i redeg y grŵp myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol, a gynhelir fel arfer yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol y grŵp.

3.6 Mae'r holl rolau'n rhedeg am gydol y flwyddyn academaidd. Unwaith y bydd deiliaid newydd pob rôl yn cael eu hethol, nid yw'r ymgeiswyr newydd yn cymryd drosodd rhedeg y grŵp a'i weithgareddau tan ddiwedd y flwyddyn academaidd gyfredol (diwrnod cyntaf mis Gorffennaf fel arfer) er y gallant gael eu cynnwys mewn gweithgareddau trosglwyddo a hyfforddi cyn y dyddiad hwn.

3.7 Dylai'r broses etholiadol ar gyfer rolau o fewn grwpiau myfyrwyr gael ei chynnal fel a ganlyn:

- a. Rhaid rhoi rhybudd o unrhyw etholiadau i'r holl aelodau o leiaf bythefnos cyn cynnal yr etholiad, gan gynnwys y canlynol:
 - i. Y dyddiad, yr amser a'r lleoliad ar gyfer yr etholiad.
 - ii. Rhestr o'r rolau sydd ar gael i sefyll ar eu cyfer, ynghyd â chrynodeb byr o'r hyn y mae pob rôl yn ei olygu, ynghyd â'r ymrwymadau amser / hyfforddiant sy'n ofynnol gan ddeiliad y rôl.

- iii. Gall pob aelod fynychu'r etholiad, fodd bynnag dim ond myfyrwyr sy'n aelodau o Undeb y Myfyrwyr a'r Grŵp Myfyrwyr perthnasol all sefyll a phleidleisio.
- b. Rhaid i'r etholiad gael ei redeg gan y pwyllgor presennol, a all ofyn am gymorth gan y Swyddog Cyfleoedd (a/neu) Gydlynedd perthnasol lle bo angen.
- c. Caiff aelodau'r pwyllgor presennol sy'n sefyll etholiad eu heithrio rhag rhedeg yr etholiad. Mewn achosion lle mae'r pwyllgor cyfan yn sefyll etholiad, dylid dwyn hyn i sylw'r Adran Cyfleoedd.
- ch. Cyfrifoldeb y pwyllgor yw gwirio bod gan bob pleidleisiwr aelodaeth ddilys fel myfyriwr ac o'r grŵp cyn i'r pleidleisio gychwyn.
- d. Gellir cynnal yr etholiad drwy bleidlais gudd neu drwy godi dwylo.
- dd. Rhaid bod gan bob pleidleisiwr yr opsiwn i bleidleisio dros AAE (Ail-agor Enwebiadau) ar gyfer pob rôl yn yr etholiad.
- e. Caiff ymgeisydd ei ethol os yw wedi derbyn mwyafrif o'r pleidleisiau.
- f. Mewn achos o bleidlais gyfartal, caiff yr enillydd ei benderfynu drwy daflu darn arian.
- ff. Os mai AAE sy'n derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau, dylid cyfeirio'r canlyniad at Adran Cyfleoedd yr Undeb hyd nes y gellir trefnu etholiad pellach yn ddiweddarach.

4. Datblygu a Chefnogi Grwpiau Myfyrwyr

- 4.1 Bydd Undeb y Myfyrwyr yn cynnig rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr i gynorthwyo â sefydlu aelodau pwyllgor. Mae'n orfodol i aelodau'r pwyllgor fynychu hyfforddiant sefydlu.
- 4.2 Bydd rhan o wefan Undeb y Myfyrwyr ar gael ar gyfer pob grŵp. Disgwylir i Grwpiau Myfyrwyr gynnal eu rhan eu hunain o'r wefan a ddarperir iddynt yn unol â'r canllawiau a ddarperir.
- 4.3 Caniateir gwefannau allanol, gan gynnwys tudalennau ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, oherwydd y ddarpariaeth sydd ar gael eisoes, fel rheol ni fydd cyllid ar gael ar gyfer hyn. Rhaid hysbysu'r Adran Cyfleoedd ynghylch pob gwefan allanol.
- 4.4 Bydd cynnwys gwefannau allanol yn cael ei fonitro o bryd i'w gilydd a dylai unrhyw wefan sy'n gysylltiedig â Grŵp Myfyrwyr gydffurfio ag Erthyglau Cymdeithasu, is-ddeddfau a pholisïau Undeb y Myfyrwyr.
- 4.5 Bydd rhan o wefan Undeb y Myfyrwyr yn cynnwys adnoddau cyfoes ar gyfer Grwpiau Myfyrwyr i helpu gyda gweinyddiaeth a rheolaeth.
- 4.6 Bydd Undeb y Myfyrwyr yn cynnig cymorth ychwanegol fel arfer ar ffurf gwasanaethau gan gynnwys llogi bysiau ac offer, dyrannu oriau yn y cyfleusterau chwaraeon ac archebu ystafelloedd.

5. Aelodaeth Grwpiau Myfyrwyr

- 5.1 Mae aelodaeth Grwpiau Myfyrwyr yn gyfyngedig i:
 - a. Aelodau o Undeb y Myfyrwyr sy'n fyfyrwyr.
 - b. Aelodau o Undeb y Myfyrwyr sydd ddim yn fyfyrwyr
- 5.2 Rhaid i bob aelod sy'n fyfyrwr brynu Aelodaeth Tîm Aber cyn y gallant ymuno â Grwpiau Myfyrwyr cysylltiedig (oni bai bod y grŵp wedi'i eithrio fel arall gan Undeb y Myfyrwyr). Mae ffioedd yn mynd yn uniongyrchol i dalu cost yswirio aelodau yn eu gweithgaredd. Rhaid adnewyddu'r aelodaeth yn flynyddol ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd (fel arfer diwrnod cyntaf mis Gorffennaf).
- 5.3 Rhaid i bob aelod sydd dim yn fyfyrwr brynu ei yswiriant ei hun yn lle Aelodaeth Tîm Aber cyn y gallant ymuno â Grwpiau Myfyrwyr cysylltiedig.
- 5.4 I gymryd rhan mewn Grŵp Myfyrwyr, rhaid i bob aelod brynu naill ai aelodaeth myfyriwr neu aelodaeth i'r rhai sydd ddim yn fyfyrwyr o'r Grŵp Myfyrwyr hwnnw. Caniateir sesiynau

blasu neu Rhoi Cynnig Arni ar gyfer y rheiny sydd ddim yn aelodau o'r Grŵp, ond dylid cytuno ar y rhain gyda'r Adran Cyfleoedd.

5.5 Mae aelodaeth i'r rheiny sydd ddim yn fyfyrwyr ar gael mewn rhai achosion i'r rheiny sydd ddim yn fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

a. Gall hyd at 10% o holl aelodaeth Grwpiau Myfyrwyr fod yn bobl nad ydynt yn fyfyrwyr Aberystwyth (Aelodau sydd ddim yn fyfyrwyr). Gellir caniatáu eithriadau ar gyfer grwpiau ond dim ond pan fydd yr Adran Cyfleoedd yn awdurdodi hynny.

b. Rhaid sefydlu aelodaeth ar wahân ar dudalen we'r Grŵp Myfyrwyr sydd dan sylw os yw'n fwriad cynnig aelodaeth i'r rheiny sydd ddim yn fyfyrwyr, a dylid amlinellu hynny yng Nghyfansoddiad y Grŵp Myfyrwyr.

5.6 Ni all unigolion gymryd rhan mewn gweithgareddau Grŵp Myfyrwyr heb aelodaeth gyfredol ac yswiriant priodol.

5.7 Rhaid i holl aelodau'r Grŵp Myfyrwyr gydffurfio ag Erthyglau Cymdeithasu, is-ddeddfau a pholisïau Undeb y Myfyrwyr. Gall aelodau o Grŵp Myfyrwyr y bernir eu bod wedi gweithredu'n groes i'r rhain gael eu haelodaeth o'r Grŵp Myfyrwyr wedi'i dileu gan Broses Ddisgyblu Undeb y Myfyrwyr heb gael eu ffi aelodaeth wedi'i had-dalu.

5.8 Gall aelodau o Grŵp Myfyrwyr sy'n dymuno cwyno am gael eu haelodaeth wedi'i dileu gyflwyno apêl yn unol â Phroses Apeliadau Undeb y Myfyrwyr.

6. Etholiadau'r Senedd

6.1 Bob blwyddyn bydd pump o gynrychiolwyr Cymdeithasau a phum cynrychiolydd Clybiau Chwaraeon yn cael eu hethol i gynrychioli Grwpiau Myfyrwyr fel aelodau â hawl i bleidleisio o'r Senedd.

6.2 Bydd cynrychiolwyr i'r Senedd yn dal y swydd drwy gydol y flwyddyn academiaidd yr etholwyd hwy ynddi.

6.2 Bydd etholiadau ar gyfer cynrychiolwyr i'r Senedd yn cael eu goruchwyllo gan Ddirprwy Swyddog(ion) Etholiadau Undeb y Myfyrwyr fel yr amlinellir yn Is-ddeddf 1 (Etholiadau).

6.3 Bydd y Dirprwy Swyddog Etholiadau yn goruchwyllo'r etholiadau er mwy sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn deg, ynghyd ag unrhyw gwynion a ddaw yn eu sgil yn unol ag Is-ddeddf 1, a lle bo angen mewn ymgynghoriad â Swyddog Etholiadau Undeb y Myfyrwyr.

6.3 Cynhelir etholiadau ar gyfer cynrychiolwyr cyn cyfarfod cyntaf y Senedd ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd.

6.4 Bydd dyddiad, amser a lleoliad y broses ethol ac enwebu yn cael eu mynegi i holl aelodau cofrestredig y pwyllgor o leiaf bythefnos ymlaen llaw. Bydd holl aelodau'r pwyllgor sy'n bresennol yn y cyfarfod yn gymwys i sefyll a phleidleisio.

6.5 Rhaid i ymgeiswyr am rôl gynrychioli fod yn aelodau o'r pwyllgor ar gyfer y flwyddyn academiaidd gyfredol.

6.6 Dylai ymgeiswyr am rôl gynrychioliadol sy'n aelodau o bwyllgorau Cymdeithasau a Chlybiau Chwaraeon gadarnhau pa rôl y maent yn dymuno sefyll amdani.

6.7 Rhoddir cyfle i ymgeiswyr am rôl gynrychioli siarad am gyfnod cyfyngedig i esbonio pam maen nhw'n credu y dylid eu hethol cyn i unrhyw bleidlais ghael ei chynnal.

6.8 Cynhelir yr etholiad drwy bleidlais gyfrinachol.

6.9 Bydd Ail-agor Enwebiadau yn ymgeisydd ym mhob etholiad. Os caiff Ail-agor Enwebiadau ei ethol, gwneir datganiad bod y rôl yn wag a gwneir trefniadau ar gyfer etholiad newydd ar amser a dyddiad a gyhoeddir gan y Dirprwy Swyddog Etholiadau.

6.10 Bydd y 5 ymgeisydd ym mhob categori o gynrychiolydd (Cymdeithasau a Chlybiau Chwaraeon) sydd â'r nifer uchaf o bleidleisiau yn cael eu hethol.

6.11 Yn achos pleidlais gyfartal, penderfynnir yr ymgeisydd llwyddiannus ar sail taflu darn o arian.

6.12 Os daw rôl Cynrychiolydd i'r Senedd yn wag, cynhelir isetholiad ar y cyfle priodol nesaf gan ddilyn y broses fel y nodir yn adran 5.

6.13 Os daw rôl Cynrychiolydd i'r Senedd yn wag ac nad oes cyfarfodydd Senedd ar ôl yn y flwyddyn academaidd honno, bydd y rôl yn aros yn wag tan y flwyddyn academaidd ganlynol.

7. Hyrwyddo Grwpiau

7.1 Dim ond hysbysfyrddau dynodedig sydd i'w defnyddio ar gyfer posterï, a rhaid gofyn am ganiatâd yr adran berthnasol o'r Brifysgol neu Undeb Myfyrwyr. Ni ddylid defnyddio waliau na phileri allanol, ffenestri na drysau.

7.2 Rhaid cadw at y rheolau canlynol:

- a. Rhaid i bob poster a thaflen gynnwys enw'r Grŵp sydd dan sylw yn glir, rhaid i logo Undeb y Myfyrwyr ymddangos arnynt. Ni chaniateir newid neu addasu logo Undeb y Myfyrwyr mewn unrhyw ffordd.
- b. Rhaid i bob poster risg uchel gael ei gymeradwyo gan yr Adran Cyfleoedd
- c. Rhaid tynnu i lawr pob poster yn dilyn y digwyddiad y maen nhw'n ei hysbysebu.
- ch. Lle bo hynny'n bosibl, dylai pob poster a thaflen gadw at Bolisi Dwyieithog Undeb y Myfyrwyr.

8. Cyfrifon Grwpiau Myfyrwyr:

8.1 Pennir cyfrif i bob grŵp cysylltiedig a fydd yn cael ei gadw a'i fonitro gan Undeb y Myfyrwyr.

8.2 Bydd y Llywydd a'r Trysorydd (neu rôl gyfatebol) ar fadad y cyfrif i gymeradwyo gwariant ar gyfer eu Grŵp Myfyrwyr.

8.3 Gofynnir i'r Llywydd a'r Trysorydd (neu rôl gyfatebol) i lenwi ffurflen mandad cyn y gellir rhoi unrhyw fynediad neu wybodaeth ynghylch cyfrifon Grŵp Myfyrwyr.

8.4 Bydd y Llywydd a'r Trysorydd (neu rôl gyfatebol) yn derbyn hyfforddiant gan Undeb y Myfyrwyr i egluro agweddau ymarferol rheoli cyfrif Grŵp Myfyrwyr.

8.5 Ni chaniateir i Grŵp Myfyrwyr Cysylltiedig feddu ar gyfrif ariannol ac eithrio'r un a ddarperir gan Undeb y Myfyrwyr. Ni chaniateir unrhyw gyfrifon banc allanol na chyfrifon banc personol ar gyfer trafodion Grŵp Myfyrwyr.

9. Grantiau

9.1 Bydd y Panel Grantiau yn ymateb i geisiadau grant ac yn dyrannu cyllid yr Undeb yn unol â hynny mewn modd teg.

9.2 Bydd y Panel Grantiau yn cynnwys:

- a. Swyddog Cyfleoedd
- b. Rheolwr Cyfleoedd
- c. Cydlynnydd Cymdeithasau a/neu'r Cydlynnydd Chwaraeon

9.3 Caiff ceisiadau eu cyflwyno a'u hasesu ar gyfer y semester cyntaf ac eto, pan fydd y sefyllfa ariannol yn caniatáu, ar gyfer ail ddyraniad yn yr ail semester.

9.4 Bydd y Panel Grantiau'n dyfarnu neu'n gwrthod ceisiadau ar sail y meini prawf canlynol:

- a. Maint Grŵp Myfyrwyr
- b. Balans cyfrif Grŵp Myfyrwyr
- c. Gofynion Iechyd a Diogelwch
- ch. Dyraniadau grant blaenorol
- d. Ansawdd y cais
- dd. Cyfanswm dyraniad grant sydd ar gael
- e. Rhoddion a wnaed neu gysylltiadau â naill ai elusen neu gorff gwleidyddol
- f. Gwariant Ultra Vires.

9.5 Rhaid i Grwpiau Myfyrwyr sicrhau bod cyllid grant yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr eitemau neu'r gweithgareddau a nodir yn y cadarnhad ar gyfer y dyfarniad yn unig. Ni chaniateir gwario grantiau ar eitemau eraill - gellir gwrthod derbynebaw ar y sail hon.

9.6 Gall Grwpiau Myfyrwyr ofyn am esboniad am y swm a ddyfarnwyd neu os gwrthodwyd unrhyw gais. Dylai'r cais gael ei gyfeirio'n ysgrifenedig at yr Adran Cyfleoedd.

10. Rhestrau Offer

10.1 Mae aelodau'r pwyllgor yn gyfrifol am gynnal rhestr o offer sy'n eiddo i'r Grŵp Myfyrwyr. Rhaid cyhoeddi copi cyfoes o'r rhestr hon ar adran y Grŵp ar wefan Undeb y Myfyrwyr a'i roi i'r Adran Cyfleoedd ar gais, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall y gofynnir amdani.

11. Diogelwch a Dyletswydd Gofal Grŵp Myfyrwyr

11.1 Rhaid i Undeb y Myfyrwyr a'i aelodau lynu'n gaeth at ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Cyfrifoldeb Pwyllgor pob Grŵp Myfyrwyr yw sicrhau bod pob aelod yn cadw at ofynion Polisi Iechyd a Diogelwch Undeb y Myfyrwyr.

11.2 Rhaid cynnal gwiriadau diogelwch cyn i unrhyw weithgaredd gychwyn.

11.3 Rhaid i bob Grŵp Myfyrwyr gyflwyno Asesiad Risg ar eu gweithgareddau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd. Rhaid cyhoeddi copi cyfoes o'r Asesiad Risg hwn ar adran y Grŵp ar wefan Undeb y Myfyrwyr. Gall yr Adran Cyfleoedd ofyn am Asesiadau Risg Ychwanegol ar unrhyw adeg.

11.4 Dylai Grwpiau Myfyrwyr gyflwyno Asesiadau Risg penodol ar gyfer digwyddiadau neu weithgareddau nad ydyn nhw'n amlwg yn rhan o'u gweithgareddau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ac y gellir eu hystyried yn anarferol.

11.5 Rhaid i grwpiau myfyrwyr sy'n dymuno paratoi bwyd ar gyfer digwyddiadau neu er mwyn codi arian ddilyn Canllawiau Hylendid Bwyd ac Alergenau Undeb y Myfyrwyr.

11.6 Rhaid i Grwpiau Myfyrwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc dan 18 oed neu oedolion bregus hysbysu'r Adran Cyfleoedd, a fydd yn cysylltu â Swyddog Diogelu Undeb y Myfyrwyr a/neu aelodau staff priodol. Bydd angen i Grwpiau Myfyrwyr ddilyn mesurau fel y cytunwyd gyda Swyddog Diogelu Undeb y Myfyrwyr a/neu aelodau staff priodol.

11.7 Ni chaniateir defodau derbyn nac ymddygiad a allai gael ei ddehongli fel defod dderbyn fel yr amlinellir ym Mholisi Undeb y Myfyrwyr ar Ddefodau Derbyn, a byddant yn arwain at ganlyniadau difrifol i'r grŵp a'r unigolion dan sylw.

12. Codi Arian ar gyfer Elusen

12.1 Mae gweithred Ultra Vires yn un sydd y tu allan i amcanion penodol a/neu a awgrymir y cyfansoddiad a phwerau'r corff dan sylw. Mae 'y tu hwnt i'r pwerau' ac felly mae'n anghyfreithlon.

12.2 Yn ôl y gyfraith, ni all Grwpiau Myfyrwyr cysylltiedig godi arian ar gyfer unrhyw Grŵp arall ac eithrio nhw eu hunain neu Undeb y Myfyrwyr. Ni all Grŵp godi arian na cheisio codi arian at elusen yn uniongyrchol. Dylai grŵp sy'n dymuno codi arian ar gyfer elusen gysylltu â'r Adran Cyfleoedd.

12.3 Rhaid talu arian a godir gan Grwpiau Myfyrwyr ar gyfer sefydliadau elusennol eraill i mewn i'r cyfrif RAG. Yna rhoddir yr arian yma i elusen ddethol y Grŵp lle nodir hynny.

13. Cynnwys

13.1 Undeb y Myfyrwyr sy'n berchen ar hawlfraint pob Llwyfan Cyfryngau Myfyrwyr a brandio.

13.2 Mae hawlfraint y cynnwys yn eiddo i'r sawl a'i creodd.

13.3 Gall y Tîm Swyddogion Llawn-amser ddewis dileu cynnwys Grwpiau Myfyrwyr y mae eu gweithgareddau'n cynnwys Cyfryngau Myfyrwyr ar gyngor Bwrdd yr Ymddiriedolwyr neu'r Prif Weithredwr os ystyrir bod cyhoeddiad yn tramgwyddo'n sylweddol, yn torri'r gyfraith, neu'n groes i Erthyglau Cymdeithasu neu is-ddeddfau Undeb y Myfyrwyr.

13.4 Gall pwyllgorau Grwpiau Myfyrwyr y mae eu gweithgareddau'n cynnwys Cyfryngau Myfyrwyr apelio yn erbyn y penderfyniad hwn drwy gyflwyno cais yn ysgrifenedig i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a fydd yn dewis p'un ai i wrthdroi neu gadarnhau'r penderfyniad.

13.5 Rhaid i'r holl gynnwys fod yn gynrychioliadol, yn ffeithiol ac yn gytbwys.

13.6 Rhaid i gynnwys beidio â mynegi gogwydd neu ffafriaeth wleidyddol i unrhyw ymgeisydd mewn etholiad Undeb y Myfyrwyr, etholiad lleol, etholiad y Cynulliad neu etholiad cenedlaethol, oni bai bod cytundeb ymlaen llaw gyda'r Rheolwr Cyfleoedd na fyddai hyn yn golygu torri'r rheolau sy'n perthyn i adnoddau elusennol.

13.7 Bydd pwyllgorau Grwpiau Myfyrwyr y mae eu gweithgareddau'n cynnwys Cyfryngau Myfyrwyr yn penderfynu ar natur y cynnwys, cyhyd â'i fod o fewn y telerau a amlinellir yn yr is-ddeddf hon.

14. Cwynion a Disgyblaeth

14.1 Ymdrinnir â chwynion am weithgareddau neu aelodau pwyllgor Grŵp Myfyrwyr yn unol â Gweithdrefn Gwynion Undeb y Myfyrwyr.

14.2 Ymdrinnir â phob mater disgyblu o fewn Grwpiau Myfyrwyr yn unol â Gweithdrefnau Disgyblu Undeb y Myfyrwyr.